**CYD-BWYLLGOR ADDYSG CYMRU**
**Tystysgrif Addysg Gyffredinol**
**Uwch Gyfrannol/Uwch**

**WELSH JOINT EDUCATION COMMITTEE**
**General Certificate of Education**
**Advanced Subsidiary/Advanced**

473/59

**HANES – HI3**

**UNED 3**

**ASTUDIAETH FANWL 9**

# YR ALMAEN NATSÏAIDD, tua 1933-1945

P.M. DYDD MERCHER, 7 Mehefin 2006

(1 awr 30 munud)

## DEUNYDDIAU YCHWANEGOL

Yn ogystal â'r papur arholiad hwn, bydd angen llyfr ateb 12 tudalen.

## CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR

Atebwch **un** cwestiwn yn Adran A ac **un** cwestiwn yn Adran B.

## GWYBODAETH I YMGEISWYR

Dangosir nifer y marciau sydd ar gael mewn cromfachau sgwâr ar ddiwedd pob cwestiwn neu ran o gwestiwn.

Dylai'r amser a dreuliwch yn ateb cwestiwn gyfateb i'r marciau sydd ar gael amdano.

Mae'n bosibl fod y ffynonellau a'r dyfyniadau a ddefnyddir yn yr uned hon wedi'u diwygio neu eu haddasu o'r gwaith cyhoeddedig a nodir er mwyn eu gwneud yn fwy dealladwy.

**Atgoffir chi y bydd ansawdd y cyfathrebu ysgrifenedig a ddefnyddir yn eich atebion yn effeithio ar y marciau a roddir.**

## UNED 3

## ASTUDIAETH FANWL 9

## YR ALMAEN NATSÏAIDD, tua 1933-1945

*Atebwch* **un** *cwestiwn yn Adran A ac* **un** *cwestiwn yn Adran B.*

### ADRAN A

*Atebwch* **un** *cwestiwn.*

**1. Cyfundrefn wleidyddol y Natsïaid a'u polisïau economaidd, 1933-1945**

*Astudiwch y ffynhonnell isod yn ofalus, ac yna atebwch y cwestiynau a seiliwyd arni.*

'Mae delwedd boblogaidd yn parhau o hyd fod llywodraeth Hitler wedi cyd-daro â chael ateb i anhawster economaidd pennaf yr Almaen, sef diweithdra torfol a hirdymor, a'i bod wedi hebrwng i mewn gyfnod o dwf a ffyniant. Er ei fod yn ddigon gwir i ddiweithdra ddiflannu, nid dyna'r holl stori. Yn gyntaf, roedd economi'r Almaen yn dechrau dangos arwyddion o adferiad yn ystod ail hanner 1932, a gellir priodoli llawer o'r adferiad a ddigwyddodd yn 1933 i gynlluniau a sefydlwyd gan Gangellorion cynharach. Yn ail, nid oedd sylfeini polisi economaidd y Natsïaid yn syfrdanol o wreiddiol. Roedd y cyllidebau heb fod yn rhy anghytbwys, roedd lefelau trethiant yn parhau'n uchel a rhoddwyd anogaeth i bobl i gynilo, a'r prif amcan wrth ostwng diweithdra oedd peidio ag achosi chwyddiant, yr hyn yr oedd Hitler yn ei ofni'n fawr. Yn drydydd, nid oedd y mwyafrif o bolisïau economaidd y Führer yn rhan o gynllun trefnus hirdymor. Yn bedwerydd, roedd yr ateb cyflym a gaed i bob golwg i'r broblem ddiweithdra yn seiliedig nid yn gymaint ar greu swyddi gwirioneddol ond ar fesurau amrywiol a weithredwyd i dynnu pobl o'r farchnad lafur heb eu cynnwys wedyn ar restr y di-waith. Defnyddiwyd pob perswâd ar wragedd priod i beidio â chwilio am waith a diswyddwyd nifer mawr ohonynt a oedd yn gweithio. Roedd benthyciadau gwladol ar gyfer priodi yn annog merched sengl i adael eu gwaith; ac nid oedd hawl gan y dynion a'r menywod hynny a gafodd eu diarddel o'r gwasanaeth sifil yn 1933 i roi eu henwau ar restr y di-waith. Cafodd llawer o'r gwrywod ifanc di-waith eu hymaelodi yng Ngwasanaeth Llafur y Reich, a chydag ailsefydlu consgripsiwn yn 1935, tynnwyd rhagor eto ohonynt o'r farchnad gyflogaeth.'

[Dick Geary, hanesydd academaidd, yn ysgrifennu mewn llyfr arbenigol ar yr Almaen Natsïaidd, *Hitler and Nazism* (1993)]

*(a)* Esboniwch **yn gryno** ystyr yr ymadrodd 'Gwasanaeth Llafur y Reich' (llinell 17) [4]

*(b)* Beth mae'r ffynhonnell yn ei awgrymu am bolisi economaidd y Natsïaid? [8]

*(c)* Pa mor ddefnyddiol yw'r ffynhonnell i ddeall cyfundrefn wleidyddol y Natsïaid a'u polisïau economaidd, 1933-1945? [20]
*(Yn eich ateb, fe'ch cynghorir i ddefnyddio gwybodaeth gefndirol berthnasol yn ogystal â'r wybodaeth a geir yn y ffynhonnell.)*

CYDNABYDDIAETH
Cyhoeddir y darn hwn gyda chaniatâd caredig yr Athro Dick Geary.

**2. Y Natsïaid yn atgyfnerthu eu grym, 1933-1934**

*Astudiwch y ffynhonnell isod yn ofalus, ac yna atebwch y cwestiynau a seiliwyd arni.*

'Hyd yn oed gyda chefnogaeth y Cenedlaetholwyr, eto doedd dim digon o bleidleisiau gan Hitler ym mis Mawrth 1933 iddo allu pasio'r Mesur Galluogi gyda dwy ran o dair o fwyafrif. Felly, perswadiodd ef Blaid y Canol i bleidleisio dros y Mesur trwy gytuno â chais y blaid honno i ddiddymu Archddyfarniadau Tân y Reichstag. Trwy ddiddymu'r hawliau sylfaenol, yn cynnwys yr hawl i addoli, mater pwysig iawn i etholwyr Catholig Plaid y Canol, roedd Archddyfarniadau Tân y Reichstag wedi mynd ymhellach na'r Ddeddf Alluogi arfaethedig. Dadl arweinwyr Plaid y Canol oedd na fyddai unrhyw ffordd yn ôl pob tebyg y gallent rwystro'r Mesur Galluogi rhag cael ei basio. Eu gobaith oedd, pe baent yn cefnogi Hitler, y byddai ef yn dangos parch tuag at Blaid y Canol a chefnogi buddiannau Catholigion yn yr Almaen trwy adfer yr hawliau sylfaenol oedd wedi cael eu hatal. Cytunodd Hitler ar lafar â cheisiadau Plaid y Canol ac addawodd y byddai'n anfon dogfen ysgrifenedig at Blaid y Canol yn cadarnhau hynny. Ar 23 Mawrth, nid oedd y ddogfen hon wedi cyrraedd. Dim ond ar ôl i Frick, Gweinidog Cartref y Natsïaid, sicrhau arweinydd Plaid y Canol, Ludwig Kaas, fod y llythyr ar ei ffordd y cytunodd y blaid i bleidleisio dros y Mesur. Does dim angen dweud na chyrhaeddodd unrhyw lythyr o'r fath ac na fyddai Hitler yn gadael i Blaid y Canol na'r Eglwys Gatholig dderbyn triniaeth arbennig. Roedd penderfyniad Plaid y Canol i gefnogi'r Mesur Galluogi yn dangos ei bod yn poeni mwy am ryddid yr Eglwys Gatholig nag yr oedd am ryddid y Catholigion.'

[K. Fischer, hanesydd academaidd, yn ysgrifennu mewn llyfr arbenigol ar yr Almaen Natsïaidd, *Nazi Germany: a New History* (1995)]

*(a)* Esboniwch **yn gryno** ystyr yr ymadrodd 'Plaid y Canol' (llinell 3). [4]

*(b)* Beth mae'r ffynhonnell yn ei awgrymu am awdurdod gwleidyddol Hitler? [8]

*(c)* Pa mor ddefnyddiol yw'r ffynhonnell i ddeall sut y llwyddodd y Natsïaid i atgyfnerthu eu grym, 1933-1934? [20]
*(Yn eich ateb, fe'ch cynghorir i ddefnyddio gwybodaeth gefndirol berthnasol yn ogystal â'r wybodaeth a geir yn y ffynhonnell.)*



**Trosodd.**

## ADRAN B

*Atebwch* **un** *cwestiwn.*

### 3. Polisi tramor yr Almaen a'i rhan yn yr Ail Ryfel Byd

*Astudiwch y ffynonellau isod yn ofalus, ac yna atebwch y cwestiynau a seiliwyd arnynt.*

<u>Ffynhonnell A</u>

'Dywedodd rhai papurau newydd tramor mai trwy ddefnyddio dulliau creulon yr aethom i mewn i Awstria. Ni allaf ond dweud, hyd yn oed yng ngafael marwolaeth ni allant beidio â dweud celwydd. Pan es i dros yr hen ffin i mewn i Awstria, ces fy nghyfarfod â'r fath lif o gariad na welais mo'i debyg erioed. Nid fel gormeswyr y daethom ond fel rhyddhawyr.'

[Rhan o araith gan Adolf Hitler (25 Mawrth 1938)]

<u>Ffynhonnell B</u>




[Cartŵn gwrth-Natsïaidd, dan y teitl *Bachgen Lleol yn Gwella'i Fyd*, a gyhoeddwyd ym mhapur newydd y *New York Post* (Mawrth 1938). Gwelir Hitler wrthi'n greulon yn 'papuro' Awstria â *swastikas*]

<u>Ffynhonnell C</u>

'Roedd y penderfyniad i fynd i ryfel dialgar a dinistriol yn erbyn Tsiecoslofacia yn llenwi ein meddyliau. Felly, buom yn cynnal yr ail ran o'r trafodaethau â Chamberlain yn Bad Godesberg yn y fath fodd fel y byddai'r hyn y penderfynwyd arno, er gwaethaf ein cytundeb, yn siŵr o fethu.'

[Cofnod o ddyddiadur Weizacker, ysgrifennydd gwladol yn Swyddfa Dramor yr Almaen (9 Hydref 1938)]

Ffynhonnell CH

'Mae'r weithred hon a gyflawnodd y llywodraeth Natsïaidd yn Tsiecoslofacia wedi rhwygo'n ddarnau unrhyw fath o esgus dros eu polisi. Hyd yn hyn gwnaethpwyd rhyw ymgais bob amser i gyfiawnhau eu gweithredoedd yn nhermau naill ai ailymgorffori pobl o dras Almaenig neu ddinistrio rhyw ran o Gytundeb Versailles oedd yn anghyfiawn yn eu tyb hwy. Ond heddiw, maent yn barnu nad oes angen y gorchudd hwn bellach ac mae trais *(aggression)* yn sefyll yn amlwg, yn noeth a thrahaus.'

[*The Daily Herald*, papur newydd o Brydain a gefnogai'r adain chwith (Mawrth 1939)]

Ffynhonnell D

'Y cam nesaf oedd Bohemia, Morafia a Gwlad Pwyl. Roedd yn amlwg i mi o'r munud cyntaf na allwn fodloni ar y diriogaeth Sudeten yn unig. Dim ond ateb rhannol oedd hynny. Gwnaethpwyd y penderfyniad i orymdeithio i Bohemia. Yna daeth sefydlu'r ddiffynwriaeth *(protectorate)* ac wedi gwneud hynny roedd y sylfaen i oresgyn Gwlad Pwyl wedi'i osod.'

[Hitler yn annerch ei gadfridogion ym mis Tachwedd 1939]

*(a)* Cymharwch Ffynonellau A a B. Sut mae Ffynonellau A a B yn dangos safbwyntiau cyferbyniol am y ffordd y meddiannwyd Awstria gan yr Almaen yn 1938? [8]

*(b)* Astudiwch Ffynonellau C ac CH. Pa mor ddibynadwy yw Ffynonellau C ac CH fel tystiolaeth i hanesydd sy'n astudio polisi tramor Hitler? [16]

*(c)* Pa mor ddefnyddiol yw'r ffynonellau i ddeall polisi tramor y Natsïaid a'r Ail Ryfel Byd, 1933-1945? [24]
*(Yn eich ateb, fe'ch cynghorir i ddefnyddio gwybodaeth gefndirol berthnasol yn ogystal â'r wybodaeth a geir yn y ffynonellau.)*

**4. Polisïau cymdeithasol, crefyddol a hiliol y Drydedd Reich**

*Astudiwch y ffynonellau isod yn ofalus, ac yna atebwch y cwestiynau a seiliwyd arnynt.*

Ffynhonnell A

'Dywedodd Dr Goebbels wrth gynulliad o arweinwyr y Blaid fod protestiadau gwrth-Iddewig wedi digwydd ac fel rhan ohonynt cafodd siopau Iddewig eu chwalu a synagogau eu rhoi ar dân. Roedd y Führer, yn dilyn awgrym Goebbels, wedi penderfynu na ddylai'r Blaid Natsïaidd ymddangos yn agored fel ffynhonnell y protestiadau hyn ond y dylai hi mewn gwirionedd eu trefnu a'u cynnal.'

[Adroddiad cyfrinachol a baratowyd gan Brif Lys y Blaid Natsïaidd wedi digwyddiadau *Kristallnacht* (9-10 Tachwedd 1938)]

Ffynhonnell B

'Cafodd y dinistr a ddigwyddodd i ffenestri siopau ynghyd â'r ysbeilio o storfeydd a thai oedd yn eiddo i Iddewon, a ddechreuodd yn ystod yr oriau mân ar 10 Tachwedd 1938, eu croesawu wedi hynny yn y wasg Natsïaidd fel ton o ddicter cyfiawn a gododd ohoni'i hun *(spontaneously)* ledled yr Almaen. Cyn belled ag y mae canran uchel iawn o bobl yr Almaen yn y cwestiwn, gellir ystyried nad yw'r fath gyflwr o ddicter cyfiawn, a fyddai'n arwain ohono'i hun at y fath erchyllterau, yn bod o gwbl.'

[Cofnod o ddyddiadur conswl UDA yn Leipzig, yn disgrifio'r hyn a ddigwyddodd yn ystod *Kristallnacht*, a gyflwynwyd fel tystiolaeth yn Nhreialon Rhyfel Nuremberg (1945)]

Ffynhonnell C

'Fe fu adegau pan mai'r bachan a allai ddal ei ddiod, bachan iawn bob amser am ddiod oedd y ddelfryd o'r dyn ifanc. Ond erbyn hyn daeth ei amser i ben, a'r hyn yr ydym am ei weld bellach yw nid y dyn a all ddal ei ddiod, ond y dyn ifanc sydd wedi'i galedu. Oherwydd yr hyn sy'n bwysig yw nid sawl gwydraid o gwrw mae'n gallu ei yfed ond sawl ergyd mae'n gallu ei gwrthsefyll.'

[Rhan o araith a draddodwyd gan Hitler yn ystod Rali'r Blaid yn Nuremberg (14 Medi 1935)]

Ffynhonnell CH



[Mae Ludwig Muller, oedd newydd ei ethol yn Esgob Protestannaidd yr Almaen, yn rhoi'r saliwt Natsïaidd yn 1933. Ac yntau'n gefnogol i'r Natsïaid, roedd Muller newydd ennill ei swydd mewn etholiad a drefnwyd o flaen llaw *(fixed)*. Defnyddiwyd y ffotograff fel propaganda gan y Natsïaid.]

Ffynhonnell D

'Does dim sôn yn y drefn ddwyfol am y cysyniadau sy'n rhan o ideoleg y Sosialwyr Cenedlaethol, megis "difodiad", "dilead" a "bywyd di-werth". Mae cael gwared â phobl dim ond oherwydd eu bod yn hen neu'n dioddef o salwch meddwl, neu oherwydd eu bod yn perthyn i hil arall, yn gwneud defnydd o gleddyf nad yw wedi'i chyflwyno i awdurdod. I Dduw yn unig y mae bywyd dyn yn perthyn.'

[Deuddegfed Synod Gyffesiadol Eglwys Brotestannaidd Prwsia yn ymosod ar bolisïau difodi y Natsïaid, mewn datganiad cyhoeddus parod (16 Hydref 1941)]

*(a)* Cymharwch Ffynonellau CH a D. Sut mae Ffynonellau CH a D yn dangos agweddau cyferbyniol yr Eglwys Brotestannaidd tuag at Sosialaeth Genedlaethol? [8]

*(b)* Astudiwch Ffynonellau A a B. Pa mor ddibynadwy yw Ffynonellau A a B fel tystiolaeth i hanesydd sy'n astudio *Kristallnacht*? [16]

*(c)* Pa mor ddefnyddiol yw'r ffynonellau i ddeall polisïau cymdeithasol, crefyddol a hiliol y Drydedd Reich? [24]
*(Yn eich ateb, fe'ch cynghorir i ddefnyddio gwybodaeth gefndirol berthnasol yn ogystal â'r wybodaeth a geir yn y ffynonellau.)*